**Atodiad 5**

# Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol

**Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd**

**1. Cyflwyniad a Chyd-destun**

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr cymwys o fewn ffiniau'r sir, yn unol â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Bwriad yr ardoll yw cefnogi economi ymweld gynaliadwy, gan ddarparu ffynhonnell incwm bwrpasol i fuddsoddi mewn cymunedau llaw-drwm gan dwristiaeth, seilwaith lleol a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith amgylcheddol bosibl o gyflwyno'r ardoll, gan ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â mesurau lliniaru ac atgyfnerthu.

**2. Amcanion yr Asesiad**

Prif amcanion yr Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol yw:

- Nodi effeithiau posibl yr Ardoll Ymwelwyr ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Ngwynedd.
- Asesu i ba raddau y gallai'r ardoll gyfrannu at reoli pwysau ymwelwyr a gwella cynaliadwyedd cyrchfannau.
- Argymell mesurau i liniaru unrhyw effaith negyddol ac i wneud y mwyaf o fanteision amgylcheddol posibl.

**3. Disgrifiad o'r Ardoll Ymwelwyr**

Cynigir y bydd yr ardoll yn cael ei godi fesul person, y noson, ar arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig. Nodir cyfradd safonol a chyfradd is ar gyfer mathau penodol o lety megis gwersylloedd a hosteli, gyda rhai eithriadau, gan gynnwys pobl ifanc o dan 18 oed mewn llety cyfradd is.

Disgwylir i'r incwm a godir gael ei gadw bron yn gyfan gwbl yn lleol, a'i fuddsoddi er budd cymunedau, busnesau, ymwelwyr a'r amgylchedd.

**4. Llinell Sylfaen Amgylcheddol**

Mae Gwynedd yn cynnwys ystod eang o asedau amgylcheddol sensitif, gan gynnwys:

- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Ecosystemau bregus sy'n destun pwysau tymhorol oherwydd niferoedd uchel o ymwelwyr.
- Trefi a phentrefi hanesyddol lle gall gor-dwristiaeth effeithio ar ansawdd yr amgylchedd byw a'r dreftadaeth adeiledig.

Mae dogfennau'r Cyngor eisoes yn cydnabod bod angen rheoli'r pwysau hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor economi ymweld Gwynedd.

Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025 gan nodi'r ymatebion canlynol sy'n berthnasol i'r Amgylchedd:

- 42.9% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar yr amgylchedd a natur
- 28.9% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad niwtral ar yr amgylchedd a natur
- 26.1% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a natur
- 31.4% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar lendid mannau cyhoeddus
- 31.6% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar ysbwriel
- Pe byddai Ardoll yn cael ei sefydlu yng Ngwynedd rhoddwyd blaenoriaeth i Gynlluniau Amgylcheddol o'r dewis o feysydd buddsoddi posib (Amgylcheddol / Cymunedol / Diwylliant a Iaith / Isadeiledd / Rheolaeth Cyrchfan).

**5. Effeithiau Amgylcheddol Posibl**

**5.1 Effeithiau Cadarnhaol**

Gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr greu nifer o fanteision amgylcheddol, gan gynnwys:

- Gwell rheolaeth ar gyrchfannau poblogaidd, drwy fuddsoddi mewn seilwaith megis llwybrau, cyfleusterau gwastraff a chyfleusterau glanweithdra.
- Buddsoddi mewn cadwraeth tirweddau, bioamrywiaeth a threftadaeth naturiol, gan liniaru difrod sy'n deillio o or-dwristiaeth.
- Annog twristiaeth fwy cynaliadwy, drwy symud y ffocws o dwf mewn niferoedd at werth ac ansawdd profiad yr ymwelydd.
- Gwella'r cynnig cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus i bobl leol ac ymwelwyr.

Mae'r defnydd arfaethedig o'r incwm i wella'r amgylchedd leol wedi'i amlygu yng nghyflwyniadau a phapurau'r Cyngor ar yr ardoll.

### 5.2 Effeithiau Negyddol Posibl

Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau negyddol neu risgiau anuniongyrchol, gan gynnwys:

- Newidiadau mewn patrwm ymwelwyr, a allai symud pwysau tuag at ardaloedd llai parod os yw ymwelwyr yn chwilio am opsiynau rhatach.
- Risg y gallai lleihau ychydig ar nifer yr ymwelwyr arwain at ganlyniadau economaidd anuniongyrchol, gyda goblygiadau posibl i fuddsoddi parhaus mewn rheolaeth amgylcheddol os na chaiff yr incwm ei neilltuo'n glir.

Yn ogystal â'r effeithiau a nodwyd uchod, mae perygl y gallai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos atgyfnerthu rhai ymddygiadau twristiaeth amhriodol, os na chaiff ei weithredu ochr yn ochr â mesurau rheoli a gorfodaeth priodol. Yn benodol:

- Cynnydd posibl mewn gwersylla gwyllt heb awdurdod, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif yn amgylcheddol, a all arwain at:
  - Ddifrod i gynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth.
  - Cynnydd mewn gwastraff, baw dynol a llygredd dŵr.
  - Pwysau ychwanegol ar lwybrau troed, tir comin a safleoedd gwarchodedig.
- Parcio anghyfreithlon cartrefi modur a cherbydau gwersylla dros nos, yn enwedig ar lonydd cul, mannau arfordirol a ger cyrchfannau poblogaidd, gyda'r canlyniadau canlynol:
  - Effaith weledig negyddol ar y dirwedd a threftadaeth naturiol.
  - Rhwystro mynediad i drigolion lleol, gwasanaethau brys a gweithgarwch amaethyddol.
  - Pwysau ychwanegol ar gyfleusterau lleol nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer aros dros nos.
- Risg y gallai rhai ymwelwyr, wrth geisio osgoi costau llety cofrestredig, symud tuag at fathau o aros nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, gan danseilio nodau'r ardoll o ran:
  - Creu economi ymweld fwy cynaliadwy.
  - Sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n deg at gostau rheoli a chynnal yr amgylchedd.
- Mae'r problemau hyn eisoes wedi'u cydnabod fel rhan o'r drafodaeth ehangach ynghylch rheoli twristiaeth a phwysau ymwelwyr ar gymunedau Gwynedd, a heb ymyrraeth briodol gallent gynyddu yn sgil newidiadau ymddygiadol anfwriadol.

**6. Mesurau Lliniaru a Gwella**

Er mwyn lleihau effeithiau negyddol ac atgyfnerthu buddion amgylcheddol, argymhellir:

- Clustnodi cyfran benodol o incwm yr ardoll ar gyfer prosiectau amgylcheddol a rheoli cyrchfannau.
- Monitro rheolaidd o effeithiau'r ardoll ar lif ymwelwyr a phwysau amgylcheddol, gan addasu polisïau os oes angen.
- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, sefydliadau amgylcheddol a'r sector twristiaeth i sicrhau bod buddsoddiadau'n targedu'r meysydd o'r angen mwyaf.
- Defnydd o incwm yr ardoll ar gynlluniau parcio cartrefi modur dynodedig, gorfodaeth a rheolaeth gwell, a seilwaith gwersylla cynaliadwy lle bo'n briodol.

Mae'r bwriad i sefydlu trefniadau llywodraethu a phartneriaeth lleol wedi'i nodi eisoes yn y gwaith polisi cysylltiedig â'r ardoll.

**7. Casgliad**

Mae'r asesiad yn dangos bod gan Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd, ar yr amod bod yr incwm a gesglir yn cael ei fuddsoddi'n strategol ac yn dryloyw mewn rheoli cyrchfannau a gwarchod asedau naturiol.

Gyda mesurau lliniaru priodol, gellir sicrhau bod yr ardoll yn cyfrannu at economi ymweld gynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bwriedir addasu'r asesiad hwn i adlewyrchu unrhyw faterion penodol a godir yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.